| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **26 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL** |
| **PWRPAS** | **Ceisio sylwadau aelodau ar bapur ymgynghorol** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor<br>Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |

1. Yn dilyn cryn drafod dros y misoedd diwethaf am ad-drefnu llywodaeth leol, mae Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodaeth Leol. Mae'r ddogfen yn amlinellu nifer o newidiadau y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried o ran trefn a phatrwm awdurdodau lleol yng Nghymru.

2. Gwahoddir sylwadau ar y ddogfen erbyn 28 Ebrill, 2015. Anfonwyd nodyn allan i bob aelod, trwy Rhaeadr yn nodi bod croeso, wrth gwrs, i gynghorwyr unigol neu grwpiau gwleidyddol gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol. Anfonwyd copi o'r fersiwn cryno o'r ddogfen ymgynghorol (sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn) a'r daflen ymateb iddo i bob aelod. Mae copi cyflawn o'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-fullv2-cy.pdf

3. Y drefn ffurfiol o ran sylwadau gan y Cyngor yw bod y mater wedi derbyn sylw yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a wedyn yn y pwyllgor hwn cyn i'r Cabinet ar 14 Ebrill benderfynu ar sylwadau ffurfiol ar ran y Cyngor.

4. Rhoddwyd cyfle i aelodau sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd na'r Pwyllgor Craffu i gyfrannu mewn dau ffordd yn ôl eu dymuniad, sef:-
   - Anfon sylwadau ysgrifenedig er mwyn iddynt dderbyn sylw yn y cyfarfodydd
   - Gwneud cais i fynychu'r naill gyfarfod neu'r llall er mwyn cyfrannu at y drafodaeth

5. O ran y ddogfen ei hun, mae'n un eang iawn ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes wedi rhoi sylw i faterion o fewn ei faes llafur – nodir y sylwadau hynny yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Gan gymryd nad yw'r Pwyllgor am ail-ymweld â materion sydd wedi eu trafod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gwahoddir sylwadau gan y Pwyllgor hwn ar y materion a ganlyn:-

   Paragraff 2.5 – Mae'r adroddiad yn nodi bwriad i gyhoeddi cynigion am ardaloedd cynghorau yn Hydref, 2015. Diau y bydd y Pwyllgor yn dymuno ail-bwysleisio'r sylwadau a anfonwyd mewn ymateb i'r Ymgynghoriad ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol a gyflwynwyd yn Hydref, 2014. Mae'r sylwadau hynny i'w gweld yn Atodiad 2.

Paragraff 2.7 – Mae'r Llywodraeth yn bwriadu sefydlu Comisiwn i ddelio â materion staff, i gynnwys trefniadau recriwtio ar gyfer y cynghorau newydd, graddio a gwerthuso ac apwyntiadau i swyddi uwch.

Paragraff 2.8 – Mae'r Llywodraeth yn debyg o gytuno gyda phwysau gan y cynghorau o blaid sefydlu 'grym cymhwysedd cyffredinol', a fyddai'n eu galluogi i wneud mwy o bethau er budd gorau eu cymunedau.

Paragraff 2.10 – Mae bwriad i symleiddio'r gofynion ar gynghorau o ran eu cyfansoddiadau.

Paragraff 3.11 a 3.12 – Awgrymir sefydlu set o ddyletswyddau penodol ar gyfer Prif Weithredwyr a ceisir barn ar awgrym o gyfyngu ar ba mor hir y gall Prif Weithredwr fod mewn swydd.

Paragraff 3.13 – Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ar y posibilrwydd o gymryd camau i gyfarch y gwahaniaeth arwyddocaol mewn cyflogau prif ac uwch swyddogion o fewn cynghorau Cymru.

Paragraff 3.14 – Mae'r Llywodraeth yn edrych ar y posibilrwydd o ddilyn esiampl gwledydd eraill a sefydlu comisiwn annibynnol i benodi Prif Weithredwyr ac uwch rolau cyhoeddus eraill… "i wneud pethau'n fwy cyson ac i adeiladu corff o arweinwyr cyhoeddus sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn i wneud y swydd yn dda."

Paragraff 4.4 – Mae'r Llywodraeth am roi'r grym i Awdurdodau Lleol adolygu'r Cynghorau Cymuned yn eu hardal, â'r bwriad o gwtogi ar y nifer yn gyffredinol, gan gwblhau'r gwaith hwn erbyn 2022.

Paragraff 4.5 – Mae'r Llywodraeth yn ystyried sefydlu set o safonau y bydd disgwyl i gynghorau tref a chymuned eu pasio "cyn gellir ystyried eu bod yn alluog ac yn gymwys"

Paragraff 5.1 a 5.2 – Mae son am rymuso cymunedau lleol a grwpiau cymunedol i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau neu asedau, fel y mae'r Cyngor hwn wedi bod yn son yn y sesiynau Her Gwynedd diweddar

Paragraff 6.1 – Mae'r Llywodraeth am i gynghorau gymryd mwy o gyfrifoldeb dros wella eu trefniadau llywodraethu corfforaethol

Paragraff 6.2 – Mae'r Llywodaeth yn son am ddiddymu o leiaf elfennau o'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi cynghorau i gyhoeddi cynlluniau gwella ac i hynny gael ei adolygu'n flynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Paragraff 6.3 – Mae bwriad i gryfhau Pwyllgorau Archwilio i roi mwy o sylw o gryfder trefniadau hunan-asesu a llywodraethu cynghorau.

Paragraff 6.4 – Mae son penodol yma am rymoedd Gweinidogion Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o bryderon am drefniadau cyngor ac yn wir i ymyrryd yn benodol yng ngweithrediad unrhyw gyngor, yn dilyn adolygiad o'r fath.

Paragraff 7.2 – Mae'r Llywodraeth yn son am sefydlu un gwefan lle bydd gofyn i gynghorau gyhoeddi gwybodaeth y gall y cyhoedd ei defnyddio i gymharu sut mae gynghorau'n perfformio ac i herio gwasanaethau i wella.

Paragraff 7.3 - Mae'r Llywodraeth am i bob cyngor fod yn fwy atebol yn ddigidol trwy we-ddarlledu a hwyluso cynnig sylwadau trwy gyfryngau cymdeithasol ymysg eraill.

Paragraff 7.4 Mae'r Llywodraeth am i gynghorau gynyddu'r nifer o ffyrdd y mae pobl yn medru cyflwyno cwynion a hefyd gyhoeddi gwybodaeth blynyddol am sut y mae cynghorau wedi ymateb i'r cwynion hynny

Paragraff 8.1 ac 8.2 – Mae'r Llywodraeth am weld cryfhau eto ar y swyddogaeth craffu o fewn cynghorau, fydd ag adnoddau digonol i'w gefnogi a hefyd i'r cyhoedd fedru cymryd rhan mewn prosesau craffu.

Paragraff 8.3 - Mae'r Llywodraeth am weld cynghorau yn cydweithio i graffu gwasanethau a ddarperir yn rhanbarthol

Paragraff 8.4 Mae'r Llywodraeth yn dymuno gweld gwell cydweithio rhwng y cyrff archwilio allanol.

Paragraff 9 – Mae son am ddiwygio a symleiddio trefn gyllido llywodraeth leol ond ni oes unrhyw gynigion ar y bwrdd amdano eto.

6. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor

ATODIAD 1

**DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL**

**SYLWADAU'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Paragraff 3.1 - Y dylid aros efo'r drefn o gynnal etholiadau bob pedair neu bum mlynedd;
Paragraff 3.2 – O blaid cael aelodau o gefndiroedd gwahanol ar y Cabinet ond o'r farn ei bod yn gamgymeriad gosod dyletswydd oherwydd y risgiau ynghlwm. Y dylid gwneud gwaith penodol i wella'r cydbwysedd o ran dynion a merched ar Gabinet tra'n cydnabod hawl yr Arweinydd i benodi;
Paragraff 3.4 – Yn gefnogol i osod dyletswydd ar gynghorwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol;
Paragraff 3.5 – Y dylid cymryd camau i hybu/annog amrywiaeth ymhlith cynghorwyr ond yn anghyfforddus o gael gweithdrefnau yn eu lle i orfodi oherwydd cymhlethdod achosion. Bod angen gwneud gwaith penodol ar gydraddoldeb o ran dynion a merched mewn Llywodraeth Leol;
Paragraff 3.6 – Yn gefnogol i adolygiad o'r ffordd orau i dalu cynghorwyr;
Paragraff 3.7 – Wrth benderfynu ar y nifer o gynghorwyr dylid edrych ar y nifer o etholwyr yn ogystal â natur yr ardal gan gynnwys poblogaeth sydd yn mynd a dod, natur wledig a'r angen i fod yn gynrychiolydd lleol yn hytrach na nifer yr etholwyr yn unig;
Paragraff 3.8 – Na ddylid gosod cyfyngiad ar nifer y tymhorau y caiff cynghorwyr wasanaethu;
Paragraff 3.9 - Yn gefnogol i gyflwyno trefn o adalw cynghorwyr o fewn amodau penodol;
Paragraff 3.10 – Ni ddylid llacio rheolau i ganiatáu swyddogion llywodraeth leol i sefyll etholiad i fod yn gynghorydd. Ni ddylid atal cynghorwyr mewn Llywodraeth Leol rhag gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned;
Paragraff 4.2 – Gwelir yr angen i edrych ar Lywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau ond yn pryderu o ran trefn orfodol;
Paragraff 4.6 - Y dylid parhau efo'r drefn lle gall unigolyn weithredu ar Brif Gyngor a Chyngor Cymuned. Yn gefnogol i atal cynghorydd sir rhag bod yn aelod ar fwy nag un Cyngor Cymuned.

ATODIAD 2

**SYLWADAU CYNGOR GWYNEDD AR Y PAPUR GWYN AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL (HYDREF 2014)**

1. Barn gychwynol y Cyngor yw y dylid datgan yn eglur mai prif gyfrifoldeb y Cyngor hwn yw gwarchod buddiannau trigolion Gwynedd a’r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Oherwydd hyn, ac o dderbyn realiti’r newid annorfod sydd am ddod, y peth cyfrifol i’w wneud yw peidio â chau’r drws ar unrhyw bosibilrwydd allai arwain at arbedion mewn costau reolaethol, canolog neu swyddfa gefn a fyddai, yn ei dro, yn medru lleihau maint y toriadau y bydd yn rhaid i unrhyw gyngor ei wneud dros y blynyddoedd nesaf.

2. O ganlyniad, mae’r Cyngor yn datgan ei fod yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau a fyddai’n hwyluso hynny er mwyn gwyntyllu pa fuddiannau y byddai uno gyda chyngor neu gynghorau eraill yn ei gynnig.

3. Wrth wneud hynny, mae’r Cyngor am nodi nifer o ystyriaethau o bwys y byddai yn ceisio sicrwydd amdanynt a rhai cwestiynau y byddai angen ateb iddynt cyn y byddai’r Cyngor yn medru mynd ymhellach o ran cyflwyno cais i uno.

4. Dyma’r ystyriaethau allweddol y byddai’r Cyngor yn ceisio sicrwydd amdanynt wrth i’r Cyngor drafod unrhyw uno posib:-

a) Mae sicrhau democratiaeth atebol lleol yn allweddol wrth symud ymlaen ac mae’n rhaid i unrhyw drefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol gynnwys trefn i sicrhau deialog ar wasanaethau cyhoeddus ar lefel mwy lleol na lefelau’r cynghorau presennol Mae risg o bellhau atebolrwydd o gymunedau yn sgil canoli mewn cynghorau mwy a rhaid gwarchod rhag hynny er mwyn gwella trefniadau atebolrwydd ac ymgysylltu cynghorau ac aelodau lleol unigol gyda thrigolion a chymunedau.
b) Mae’n rhaid i’r patrwm o wasanaethau cyhoeddus i’r dyfodol gynnwys rôl ystyrlon i gynghorau tref a chymuned o ran bod yn gyfrifol am a darparu rhai gwasanaethau.
c) O ran atebolrwydd aelodau lleol, dylid gofyn am sicrwydd na fydd cynigion y Comisiwn Ffiniau yn creu wardiau rhyw fawr a fydd yn gwneud gwaith aelodau lleol o ymgysylltu’n effeithiol gyda’u cymunedau yn anos. Yn benodol, pwysir am sicrwydd na cheir mwy o wardiau aml-aelod, gan fod darpariaeth felly yn medru drysu atebolrwydd aelodau unigol o fewn eu hetholaethau
ch) Mae gweithredu Polisi Iaith sydd yn gadarn o blaid y Gymraeg yn allweddol ar gyfer unrhyw gyngor newydd y byddai Gwynedd yn ran ohonno i’r dyfodol, yn cynnwys amcanion presennol Cynllun Iaith y Cyngor, sef:-

- galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru

- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor.
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

d) Mae angen sicrwydd am sefyllfa ariannol ac asedau pob partner posib er mwyn gweld pa fath o sefyllfa ariannol y byddai cyngor newydd yn ei etifeddu